# Adroddiad Grŵp Cyflawni BGC

Paratowyd gan: Liam Wheeler-Jones

| | |
|---|---|
| **Nod yn y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect yn seiliedig ar le fydd ceisio rhoi sylw i'r nodau llesiant a amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith cyflawni sy'n seiliedig ar le yn rhoi blaenoriaeth i integreiddio, a bydd yn cynnwys dull gweithredu holistig ar ffurf archwiliad dwfn i gydnerthedd cymunedol ac unigol. |
| **Ein Gwerthoedd** | Yr Iaith Gymraeg, Trechu Anghydraddoldebau, Cynnwys Pobl, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl. |
| **Enw'r Grŵp Cyflawni** | Gwella Llesiant Cymunedol a Threchu Caledi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp Cyflawni** *(Mae'r enwau mewn print **trwm** yn dynodi eu bod yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Alison Heal, Bethan James, Caitlin Theodorou, Carwyn Young, Carys Huntley, **Carys Owens**, **Cathryn Morgan**, Cerys Purches-Phillips, Connor Cook, **Elinor Ashworth – Chandler**, Eirlys Lloyd, **Y Cynghorydd Elaine Evans**, Emily Edwards, Erin McCudden, Mari Hopkins, Martin Gillard, Melanie Walters, Non Davies, Rhiannon John, Rob Starr, Sarah Evans, **Sarah Griffiths**, Dr Sarah Groves Phillips<br><u>Tîm Partneriaethau</u>: **Anwen Thomas**, Lynne Walters, Neris Davies, Sara Dafydd, Steffan Gruffudd, **Teleri Elias**, **Timothy Bray**, **Liam Wheeler-Jones** | Tai Wales & West | Rhiannon Ling |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Conrad Hancock, Geinor Jones, Jackson Reynolds, Janet Knill, Rhian Rees, **Terri-Ann Patrick**, Trina Nealon, Vicki Howell-Williams |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | Chesca Ross | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Steven Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen, **Sue Thomas** | Mentera | **Ann Owen** |
| CAB Ceredigion | Glynis Llewelyn, Juliet Morris | Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru | Mandy Williams, Mererid Lewis |
| Area 43 | Becca Head | Age Cymru | Lynne Hughes-Davies |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP CYFLAWNI**

**Prif Bwyntiau a drafodwyd yn ystod cyfarfod y Grŵp Cyflawni: 8.7.2025**

**17.1 Croeso ac Ymddiheuriadau**
Cyflwynodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod.

**Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:** Caitlin Theodorou, Carwyn Young, Greg Jones, Geinor Jones, Rhian Rees, Robert Allen, Sandra Mitchell a Chesca Ross

**17.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol (07.05.25)**
Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Mai 2025 a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r trafodaethau. Cytunwyd bod y camau gweithredu a gofnodwyd wedi cael eu cwblhau neu eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

**17.3 Eitem Sefydlog: Diweddariad o gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (02.06.25)**
Rhoddwyd trosolwg o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion ar 2 Mehefin 2025 gan Timothy Bray (TB):
Cyflwynwyd rhai ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod BGC, ond roedd yn creu cworwm. Lluniwyd yr adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2024/2025, ac fe'i rhannwyd gyda'r aelodau er mwyn cael adborth amdano.

Mae'r trafodaethau yn parhau hefyd ynghylch uniad rhanbarthol gyda chynghorau Powys, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Bydd angen adolygu'r cylch gorchwyl ond mae HLL wedi gohirio'r adolygiad wrth iddynt aros am y cynlluniau ar gyfer uno.

Cwtogwyd prosiect dangosfwrdd data Gorwel. Nododd TB bod cynlluniau yn bodoli nawr i fuddsoddi arian Gorwel er mwyn helpu arloesi cymunedol.

Defnyddir dogfen olrhain gan y grŵp BGC hefyd i fonitro cyflawniadau; dim ond aelodau BGC sy'n gallu troi at y ddogfen hon.

Cyflwynodd Claire Bryant Gynllun yr Heddlu a Throseddau OPCC, sy'n amlinellu tair prif flaenoriaeth: Cynorthwyo Dioddefwyr, creu Cymunedau mwy Diogel, a Chryfhau'r System Gyfiawnder, gan ganolbwyntio'n arbennig ar bobl ifanc a diogelwch ar y ffordd. Mae'r cynllun yn amlygu heriau unigryw plismona ardal wledig hefyd, gan bwysleisio rôl hanfodol y cyhoedd wrth fynd i'r afael â materion lleol.

Cafodd BGC ddiweddariadau amlygu am ymgysylltu cymunedol gan y Gwasanaeth Ymgysylltu ag Ieuenctid, Ceredigion Oed-Gyfeillgar, a phrosiect Cysylltu Cymunedau. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgysylltu â bron i 50% o bobl ifanc Ceredigion bob blwyddyn, ac mae tua 400 yn cymryd rhan bob wythnos. Ymunodd Ceredigion Oed-Gyfeillgar â Rhwydwaith Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd fis Hydref y llynedd, gan ganolbwyntio ar wyth maes allweddol er mwyn cynorthwyo mynd yn hŷn mewn ffordd gadarnhaol. Mae prosiect Cysylltu Cymunedau wedi gweithio i gryfhau cysylltiadau gyda grwpiau lleol trwy gyfrwng ymweliadau â mannau cynnes, caffis cymunedol, a banciau bwyd. Mynegwyd dymuniad gan BGC hefyd i wella gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd trwy arddangos eu gwaith mewn ffordd well.

**Grŵp Cyflawni yr Hinsawdd a Natur**
Amlinellodd TB y cydweithio rhwng BGCau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ynghylch yr agenda hinsawdd a natur, a chanolbwyntio ar alinio strwythurau. Ceisir cadeirydd o NRW ar gyfer y Grŵp Natur a Hinsawdd er mwyn arwain yr ymdrechion ar ochr Ceredigion. Trefnwyd gweithdy i Geredigion ym mis Hydref yng Nghastellnewydd Emlyn i ystyried risgiau a materion lleol.

Cyflwynodd Cathryn Morgan (CM) Siarter Gwaith Teg i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), gan amlinellu 13 adduned i sefydliadau weithio tuag atynt. Cytunodd BGC â'r Siarter mewn egwyddor, a gofynnodd i sefydliadau sy'n aelodau i'w hadolygu a'i rhoi trwy eu prosesau democrataidd a llywodraethu perthnasol. Y nod yw bod y Siarter yn hollol weithredol erbyn mis Mawrth 2028.

Nododd CM hefyd, os bydd BGC yn mabwysiadu'r Siarter yn ffurfiol, bydd angen adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob grŵp cyflawni er mwyn adlewyrchu'r ymrwymiadau gwaith teg. Nododd HLL y newid posibl tuag at weithrediad rhanbarthol BGC ac amlygodd y dylid diweddaru'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp hwn i adlewyrchu hyn. Nododd HLL hefyd y bydd angen cynnwys ymrwymiadau Gwaith Teg ar yr agenda mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Gweithredu: Sicrhau y caiff ystyriaethau Gwaith Teg eu cynnwys yn yr adolygiad nesaf o Gylch Gorchwyl y grŵp hwn, ac ychwanegu Gwaith Teg fel eitem ar agenda cyfarfod yn y dyfodol.**

**17.4 Rhwydweithiau Bwyd Lleol yng Ngheredigion**
**•Partneriaeth Fwyd Leol Ceredigion**
Nododd Ann Owen (AO) eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithdai Dull Gweithredu System Gyfan dan arweiniad GIG, gan gynorthwyo ymarferion mapio ac alinio eu gweithredoedd gyda'r prosiect.

Esboniodd AO bod 22 o rwydweithiau bwyd lleol yng Ngheredigion a bod 13 ohonynt yn aelodau o leoedd Bwyd Cynaliadwy Cymru a bod Mentera bellach yn aelod. Mae cyllid ar gael gan Synnwyr Bwyd Cymru er mwyn helpu ffermydd i dyfu mwy o fwyd ar gyfer cymunedau yng Nghymru, gan bod 95% o'r bwyd a dyfir yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael ei allforio i wledydd eraill. Rhoddodd AO enghraifft o fferm sy'n eiddo i gyngor cymuned, gan nodi bod Ceredigion yn cynnwys sawl fferm y mae'r cyngor yn berchen arnynt, ac y mae eu dyfodol yn ansicr. Awgrymodd y gallai'r rhain fod yn safleoedd delfrydol ar gyfer gweithgarwch tyfu llysiau cymunedol.

Dylai gwefan 'Partneriaeth Ceredigion', y mae AO yn ei datblygu i Geredigion, fod yn weithredol y mis hwn. Nodwyd bod Prifysgol Aberystwyth wedi cynnal cyfres o weithdai LPIP tair rhan ynghylch systemau bwyd er mwyn cynorthwyo gwelliannau ar draws Gorllewin Cymru. Awgrymodd HLL y dylid rhannu'r adroddiad terfynol o'r sesiynau hyn gyda BGC a'i is-grwpiau. Mae cwmni allanol wedi dadansoddi Arolwg Bwyd Da. Dros y misoedd nesaf, adolygir y canlyniadau gyda'r grŵp llywio ac fe'u defnyddir i gyfrannu at ddatblygiad Strategaeth Bwyd Da. Y gobaith yw y bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at siapio'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â bwyd yng Nghynllun Llesiant nesaf BGC.

Esboniodd AO hefyd bod menter 'Pryd ar Glud' yn parhau. Mae AO wedi bod yn gweithio gyda CM a Thîm Iechyd yr Amgylchedd i greu model i Geredigion. Cynigiwyd prosiect 'Beth sydd i swper heno' sy'n helpu'r gymuned i wneud dewisiadau bwyd iachach. Mae'r gwaith yn parhau ond awgrymodd AO y gallai'r prosiect greu gwasanaeth tanysgrifio sy'n cyflenwi bocsys bwyd i'r gymuned bob wythnos.

Nododd HLL bod CAVO wedi bod yn gweithio gydag AO a CM i alinio cyllid ar ffurf grantiau bwyd, gan ei gwneud yn haws hyrwyddo a dosbarthu adnoddau. Rhennir rhestr o brosiectau wedi'u cymeradwyo yn Aberteifi gyda'r grŵp yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

**Gweithredu- Hazel Lloyd-Lubran i rannu rhestr o brosiectau wedi'u cymeradwyo yn Aberteifi mewn cyfarfod yn y dyfodol, ar ôl cydlynu gyda CAVO, Ann Owen a CM ynghylch hyrwyddo ac alinio grantiau bwyd.**

Amlygodd HLL hefyd bod gwaith mapio bwyd, dan arweiniad Tîm Iechyd y Cyhoedd a Phrosiect Dewi, yn parhau. Maent yn parhau i nodi cyfleoedd i wneud gwaith mapio yn ystod digwyddiadau haf, gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â theuluoedd a chasglu adborth ar draws pob grŵp oedran.

Nododd AO y bwriedir cynnal Uwchgynhadledd Cydnerthedd Bwyd yn ystod yr hydref/gaeaf, a bod cais am gyllid wedi cael ei gyflwyno yn barod. Er nad yw'r dyddiadau wedi cael eu cadarnhau eto, mae'r gwaith cynllunio wedi cychwyn. Mae BGC yn bwriadu ystyried materion yn ymwneud â chydnerthedd bwyd yn ystod ei gyfarfod nesaf ym mis Medi hefyd.

**<u>17.5 Diweddariad am Geredigion Oed-Gyfeillgar</u>**
Rhannodd Elinor Ashworth-Chandler (EAC) ei bod hi wedi bod yn gweithio gyda Mel Walters i ddatblygu cyfres o ddigwyddiadau iechyd a lles ar draws Ceredigion. Cynhaliwyd digwyddiad ym Mhenparcau yn ddiweddar, ac roedd partneriaid gan gynnwys Mind a'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhan. Roedd y gwasanaethau a gynigiwyd yn ystod y digwyddiad yn cynnwys sganiau ffibro ar gyfer iechyd yr afu, profion clyw, a monitro pwysedd gwaed. Bwriedir cynnal y digwyddiadau hyn bob chwarter, a chynnal sesiynau yn y dyfodol mewn lleoliadau ychwanegol.

Fodd bynnag, ceir anhawster wrth nodi staff y Bwrdd Iechyd sy'n gweithio mewn timau penodol. Mae EAC yn gweithio gyda Terri Ann Patrick (TAP) i sefydlu pwyntiau cyswllt ar gyfer timau o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Ar 15 Hydref, rhwng 11am a 6pm, cynhelir Digwyddiad Cymorth Digidol Amlasiantaethol o'r enw '*Technoleg i Bawb*' yng Nghanolfan Byw'n Annibynnol Penmorfa. Bydd y digwyddiad yn cynnig cymorth i aelodau'r gymuned wrth iddynt osod a defnyddio dyfeisiau. Esboniodd Sarah Griffiths (SG) mai sesiynau peilot yw'r digwyddiadau hyn er mwyn casglu adborth, gyda'r gobaith o drefnu digwyddiadau ychwanegol yn Ne a Gogledd y sir. Mae'r partneriaid a fydd yn mynychu'r digwyddiad yn cynnwys Age Cymru, Tîm Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg, Heddlu Dyfed Powys, BT, Dysgu Bro a'r Ganolfan Gwaith. Ychwanegodd SG bod croeso i unrhyw

aelod gysylltu â hi os allant awgrymu sefydliad arall i fynychu. Holodd CM a fyddai modd i'r Tîm Ymgysylltu fynychu digwyddiad Technoleg i Bawb? Cytunodd SG y gallai'r Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant fynychu.

**Gweithredu : Bydd y tîm Partneriaethau yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau 'Technoleg i Bawb' gyda'r grŵp.**
Awgrymodd y Cynghorydd Elaine Evans (EE) y dylid datblygu ap Cyngor Ceredigion er mwyn galluogi'r cyhoedd i gyflwyno adborth i ymgynghoriadau, gweld dyddiadau cyfarfodydd, ac adrodd am faterion. Cytunodd SG ddiweddaru'r Tîm Gofal wedi'i Alluogi gan Dechnoleg a'r rheolwyr am y cynnig. Nododd CM bod Fy Nghyfrif yn cyflawni elfennau o hyn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch gwella ymgysylltu a chynyddu presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol yn Aberteifi yn y dyfodol. Awgrymwyd lleoliadau posibl gan y rhai a oedd yn bresennol. Un mater allweddol a godwyd oedd effaith taliadau parcio ar bresenoldeb, gyda chynnig i gynnig parcio am ddim ar y diwrnodau pan gynhelir digwyddiadau er mwyn annog mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd. Argymhellodd HLL y dylid peilota'r dull gweithredu hwn, a chytunodd CM gysylltu â Barry Rees i archwilio'r posibilrwydd o dreialu parcio am ddim ar gyfer digwyddiadau iechyd.

**Gweithredu: Cathryn Morgan i gysylltu â Barry Rees i drafod costau parcio yn Aberteifi ac i archwilio'r posibilrwydd o beilota parcio am ddim yn ystod digwyddiadau iechyd cymunedol er mwyn helpu i gynyddu presenoldeb y cyhoedd.**

**Gweithredu: Ceredigion Oed-Gyfeillgar i fod yn eitem safonol ar agenda cyfarfodydd yn y dyfodol.**

Rhannodd EE wybodaeth am CIC Lolfa Trotters, clwb wythnosol yn Aberteifi sy'n cynnig cymorth i unigolion y mae angen help ychwanegol arnynt gyda gofal y goes a'r droed. Am ragor o fanylion, dilynwch y ddolen a ddarparwyd.

**17.6 Diweddariad am hwb Lles Aberteifi**
Nododd HLL nad oedd Carwyn Young (CY) yn gallu mynychu'r cyfarfod i roi diweddariad am Hwb Lles Aberteifi, er bod CY wedi rhoi diweddariad ysgrifenedig cyn y cyfarfod: cadarnhaodd CY eu bod wedi llwyddo i sicrhau cyllid UKSPF ar gyfer cam nesaf yr Astudiaeth Ddichonolrwydd, er mwyn symud y prosiect ymlaen i RIBA 1.
Bydd yn rhaid cwblhau'r Astudiaeth ddichonolrwydd erbyn diwedd mis Chwefror 2026 er mwyn cydymffurfio â'r amodau dyfarnu grant. Maent yn cwblhau cwmpas yr Astudiaeth Dichonolrwydd ar hyn o bryd.

**17.7 Digwyddiadau ac ymgysylltu**

Yn anffodus, nid oedd Robert Allen a Sandra Mitchell o'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn. Fodd bynnag, byddent yn hapus i gynnig trosolwg o ddigwyddiadau a gweithgarwch ymgysylltu eu tîm yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

**Gweithredu: Robert Allen a Sandra Mitchell i gynnig trosolwg o ddigwyddiadau a gweithgareddau y Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.**

**Trosolwg o ddigwyddiadau Dewch i Siarad.**

Cadarnhaodd CM bod contract Nic Pryor gyda phrosiect Cysylltu Cymunedol wedi dod i ben ym mis Mehefin 2025. Yn ystod ei chyfnod, ymwelodd â mannau croeso a banciau bwyd er mwyn helpu i sefydlu digwyddiadau Dewch i Siarad, sesiynau cymunedol a gynlluniwyd i gasglu adborth am gynlluniau a strategaethau'r Cyngor. Cynhaliwyd tri digwyddiad yn Llanbedr Pont Steffan, Penparcau ac Aber-porth, yr oedd pob un ohonynt wedi cael eu hyrwyddo'n dda.

Rhannodd CM bod gwersi gwerthfawr wedi cael eu dysgu o gynllunio a chyflwyno tri digwyddiad Dewch i Siarad. Bu ymgysylltu â grwpiau cymunedol a oedd yn bodoli eisoes ac alinio gyda digwyddiadau lleol rheolaidd yn effeithiol, gan arwain at fwy o'r cyhoedd yn mynychu. Yn ogystal, roedd cynnal sesiynau wyneb yn wyneb a chynnig bwffe neu fwyd wedi rhoi hwb sylweddol i'r gweithgarwch ymgysylltu. Mynegwyd diddordeb gan HLL mewn cynnal digwyddiad Dewch i Siarad yn Aberteifi.

Bydd HLL yn estyn allan i aelodau etholedig i nodi digwyddiadau cymunedol rheolaidd y gallent gynnig cyfleoedd i gynnal gwasanaeth galw heibio.

**17.8 Eitem Sefydlog – Diweddariad am y Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Esboniodd HLL bod 12 prosiect yn cael eu cynorthwyo gan SPF ar hyn o bryd, y maent y tu hwnt i gynlluniau'r Awdurdod Lleol. Mae'r amserlen yn dynn iawn ar gyfer y cyllid eleni, ac nid yw hyn yn caniatáu gweithgarwch cynllunio neu recriwtio ychwanegol oherwydd y bydd angen i'r prosiectau fod yn barod i weithredu ar unwaith.

Mae modd gweld mwy o wybodaeth yma.

Rhannodd CM y ddolen ganlynol gyda phartneriaid hefyd : Cyllid: Trechu Tlodi bwyd a diffyg diogeledd bwyd

Bydd Cyngor ar Bopeth yn cynnal sesiwn Rhwydwaith Gwybodaeth hefyd, a fydd yn cynnwys cyfarfod gyda chynghorwyr ynni ar ddydd Gwener, 11 Gorffennaf. Bydd cynghorwyr yn ymwneud â phrosiect 'Cynhesrwydd ar Bresgripsiwn' Hywel Dda hefyd, dan arweiniad Dr. Gareth Morgan, mewn partneriaeth ag Ynni Severn Wye.

**17.9 Trafodaeth gan Bawb am y Blaengynllun Gwaith**

- Parhau'r trafodaethau am fentrau sy'n ymwneud â bwyd.
- Cynyddu gwelededd ac ymgysylltu o fewn cymuned Aberteifi.
- Cynnwys *Ceredigion Oed-Gyfeillgar* fel eitem sefydlog ar yr agenda.
- Archwilio sut y gall grŵp Aberteifi gynorthwyo'r *Astudiaeth Ddichonolrwydd ar gyfer Hwb Lles Aberteifi.*

**17.10 Diweddariadau Partneriaid / Unrhyw Fater Arall**

Rhannodd EAC wybodaeth ynghylch digwyddiad Sioe Deithiol yr Haf a gynhelir cyn bo hir. Gweler isod.

Sioe Haf 1.pdf    Sioe Haf Eng 1.pdf

Nodwyd y cynhaliwyd yr Ymgynghoriad am y Gwasanaethau Clinigol yn Neuadd y Dref yn ystod y prynhawn ar 8 Gorffennaf, rhwng 2 a 7pm.

**17.11 Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 8 Hydref 2025 am 10:00-12:00

**Cofnod Cryno o'r Camau Gweithredu**

1. Sicrhau y caiff ystyriaethau Gwaith Teg eu cynnwys yn yr adolygiad nesaf o Gylch Gorchwyl y grŵp hwn, ac ychwanegu Gwaith Teg fel eitem ar agenda cyfarfod yn y dyfodol.
2. Hazel Lloyd-Lubran i rannu rhestr o brosiectau wedi'u cymeradwyo yn Aberteifi mewn cyfarfod yn y dyfodol, ar ôl cydlynu gyda CAVO, Ann Owen a CM ynghylch hyrwyddo ac alinio grantiau bwyd.
3. Bydd y tîm Partneriaethau yn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau 'Technoleg i Bawb' gyda'r grŵp.
4. Cathryn Morgan i gysylltu â Barry Rees i drafod costau parcio yn Aberteifi ac i archwilio'r posibilrwydd o beilota parcio am ddim yn ystod digwyddiadau iechyd cymunedol er mwyn helpu i gynyddu presenoldeb y cyhoedd.

| | |
|---|---|
| **5.** | Ceredigion Oed-Gyfeillgar i fod yn eitem safonol ar agenda cyfarfodydd yn y dyfodol |
| **6.** | Robert Allen a Sandra Mitchell i gynnig trosolwg o ddigwyddiadau a gweithgareddau y Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol yn ystod cyfarfod yn y dyfodol |